

Goblygiadau Ariannol y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)

Mehefin 2019



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCyllid@cynulliad.cymru**
Twitter: **[@SeneddCyllid](https://twitter.com/SeneddCyllid)**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Goblygiadau Ariannol y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)

Mehefin 2019



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2016 i gyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn [Rheolau Sefydlog](#) 18.10, 18.11, 19 a 20 Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

O dan Reolau Sefydlog 19 ac 20, mae cyfrifoldebau'r Pwyllgor yn cynnwys ystyried unrhyw adroddiad neu ddogfen a osodir gerbron y Cynulliad yn ymwneud â'r defnydd o adnoddau, neu wariant o Gronfa Cyfunol Cymru. Mae hyn yn cynnwys ymgymryd â gwaith [craffu ar gyllideb y cyrff a ariennir yn uniongyrchol o Gronfa Cyfunol Cymru](#).

Ymhlith cyfrifoldebau'r Pwyllgor o dan Reolau Sefydlog 18.10 ac 18.11, mae [goruchwyllo llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru](#), fel y nodir yn [Neddf Archwilio Cyhoeddus \(Cymru\) 2013](#).

Mae'r Pwyllgor hefyd yn ystyried unrhyw gynigion ar gyfer [datganoli pwerau cyllidol i Gymru](#) a chynnydd yn hyn o beth, fel rhan o'i gyfrifoldebau.

Gall y Pwyllgor hefyd [graffu ar ddeddfwriaeth a gyflwynwyd i'r Cynulliad](#).

Cadeirydd y Pwyllgor:



Llyr Gruffydd AC

Plaid Cymru
Gogledd Cymru

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Rhun ap Iorwerth AC

Plaid Cymru
Ynys Môn



Alun Davies AC

Llafur Cymru
Blaenau Gwent



Mike Hedges AC

Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe



Rhianon Passmore AC

Llafur Cymru
Islwyn



Nick Ramsay AC

Ceidwadwyr Cymreig
Mynwy



Mark Reckless AC*

Plaid Brexit
Dwyrain De Cymru

Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn.



Neil Hamilton AC

UKIP Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

*Nid oedd Mark Reckless yn Aelod o'r Pwyllgor yn ystod y gwaith o drafod y dystiolaeth a chytuno ar yr adroddiad.

Cynnwys

Casgliadau ac argymhellion	5
1. Cyflwyniad	9
Cefndir y Bil	10
Asesiad Effaith Rheoleiddiol	11
2. Rhan 2: Enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru	12
Y cefndir	12
Tystiolaeth gan dystion	12
Safbwynt y Pwyllgor.....	14
3. Rhan 3: Etholiadau	15
Y cefndir	15
Cofrestru pobl 16 a 17 oed	15
Safbwynt y Pwyllgor.....	19
Meddalwedd System Rheoli Etholiadol (EMS).....	21
Safbwynt y Pwyllgor.....	22
Codi ymwybyddiaeth.....	23
Tystiolaeth gan dystion	24
Safbwynt y Pwyllgor.....	26
4. Ariannu a goruchwyllo'r Comisiwn Etholiadol.....	28
Y cefndir	28
Tystiolaeth gan dystion	29
Safbwynt y Pwyllgor.....	32
5. Gweithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith	35
Y cefndir	35
Tystiolaeth gan dystion	35
Safbwynt y Pwyllgor.....	36
6. Adolygiad ar ôl gweithredu.....	39
Y cefndir	39

Tystiolaeth gan dystion 39

Safbwynt y Pwyllgor.....40

Atodiad A: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar 41

Casgliadau ac argymhellion

Casgliad 1. Mae'r Pwyllgor yn credu bod y costau mewn perthynas â newid enw'r Cynulliad yn gymesur ac yn dryloyw ar y cyfan a bod yr opsiwn mwyaf cost-ffeithiol yn cael ei ddilyn..... Tudalen 14

Casgliad 2. Mae'r Pwyllgor yn credu bod angen sicrhau bod gwaith i godi ymwybyddiaeth yn gost-ffeithiol. Er enghraifft, gellid rhoi rôl allweddol i ysgolion, grwpiau ieuenctid a sefydliadau eraill wrth ddylunio ymgyrchoedd allgymorth pleidleiswyr fel bod gostwng yr oedran pleidleisio'n dod yn ddathliad cenedlaethol..... Tudalen 27

Casgliad 3. O ystyried bod y costau amcangyfrifedig i Lywodraeth Cymru ar gyfer codi ymwybyddiaeth o estyn yr etholfraint i bobl 16 oed ar gael cyn cyflwyno'r Bil a'r Memorandwm Esboniadol, mae'r Pwyllgor yn siomedig na chafodd y wybodaeth hon ei chynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Tudalen 27

Casgliad 4. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai trefniadau ariannol a goruchwylio'r Comisiwn Etholiadol fod wedi'u datblygu'n fwy cyn i'r Bil gael ei gyflwyno. Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod y Comisiwn wedi cyflwyno Bil gyda'r bwriad o ddiwygio darpariaethau yng Nghyfnod 2. Mae'r dull gweithredu hwn yn lleihau gallu'r Cynulliad i graffu ar egwyddorion cyffredinol y Bil a gwneud penderfyniad arnynt ac nid ystyrir mai dyma'r arfer gorau..... Tudalen 34

Casgliad 5. Gan nad yw trefniadau goruchwylio ac ariannu'r Comisiwn Etholiadol yn anhysbys, ni all y Pwyllgor ffurfio safbwynt ar briodoldeb sefydlu "Pwyllgor Llywydd" i graffu ar y Comisiwn Etholiadol..... Tudalen 34

Casgliad 6. Mae'n siomedig y cyflwynwyd Bil gan y Comisiwn sy'n cynnwys darpariaethau is-ddeddfwriaeth nad oes modd eu costio'n llawn a bod yn destun gwaith craffu, yn enwedig gan fod Pwyllgorau'r Cynulliad wedi beirniadu'r dull gweithredu hwn o'r blaen. Tudalen 37

Casgliad 7. Mae'r Pwyllgor yn ailadrodd ei argymhelliad blaenorol y dylai darlun mor llawn â phosibl gael ei roi o gostau is-ddeddfwriaeth wrth gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol. Dyma'r hyn a ddisgwylir gan bob Bil a gyflwynir i'r Cynulliad gan Lywodraeth Cymru, Comisiwn y Cynulliad, un o bwyllgorau'r Cynulliad neu Aelod unigol..... Tudalen 37

Argymhelliad 1. Gan gydnabod y manteision cost o beidio ag ailosod arwyddion ar unwaith, mae pryder gan y Pwyllgor y gallai'r trywydd hwn arwain at ddryswch ychwanegol gan y cyhoedd ynghylch rôl y Cynulliad a Llywodraeth Cymru. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Llywydd a Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos i sicrhau bod newidiadau'n cael eu cyfleu'n glir er mwyn codi ymwybyddiaeth y cyhoedd..... Tudalen 14

Argymhelliad 2. Gan yr amcangyfrifir mai awdurdodau lleol fydd yn talu'r rhan fwyaf o'r costau ar gyfer newidiadau i'r etholfraint, mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Llywydd gynnal mwy o ymchwil i ddilysu neu ddiweddarau'r costau hyn, neu ymhelaethu ar sut roedd awdurdodau lleol wedi cymeradwyo'r costau. Dylid cynnwys y wybodaeth hon yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig a gyhoeddir ar ôl trafodion Cyfnod 2.....Tudalen 20

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Llywydd a Llywodraeth Cymru yn trafod rhinweddau cyflwyno un gofrestr etholiadol ar gyfer etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru ac etholiadau'r Cynulliad, gan y gallai hyn olygu llai o lwyth gwaith gweinyddol i awdurdodau lleol na chynnal 22 o gofrestri ar wahân. Dylai'r Llywydd a Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Cyllid cyn cyflwyno'r Bil Llywodraeth Leol arfaethedig.....Tudalen 21

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Llywydd a Llywodraeth Cymru yn trafod yr arbedion cost posibl ar gyfer y dull cofrestru awtomatig. Dylai'r Llywydd a Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Cyllid cyn cyflwyno'r Bil Llywodraeth Leol arfaethedig.....Tudalen 21

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi'r costau sy'n gysylltiedig â gweinyddu etholiadau llywodraeth leol Cymru yn rheolaidd ac yn gyflym ac mae'n disgwyl i'r wybodaeth hon gael ei chynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol sydd i ddod ar gyfer y Bil Llywodraeth Leol arfaethedig.....Tudalen 21

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod awdurdodau lleol yn cyhoeddi'n rheolaidd ac yn gyflym y gwariant blynyddol ar lunio'r gofrestr etholiadol er mwyn sicrhau mwy o dryloywder.....Tudalen 21

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid diwygio'r Bil hwn i ddarparu, ar wyneb y Bil, ddarpariaethau i sicrhau bod gwariant etholiadau'r Cynulliad yn cael ei gyhoeddi cyn gynted â phosibl yn dilyn etholiadau a refferenda'r Cynulliad.Tudalen 21

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r ffioedd a delir i Swyddogion Canlyniadau fel rhan o'r Uchafswm Lwfans Adenilladwy gyda'r bwriad o drafod a oes modd gwneud arbedion cost. Mae'r Pwyllgor yn disgwyl i'r wybodaeth hon gael ei chynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol sydd i ddod ar gyfer y Bil Llywodraeth Leol arfaethedigTudalen 21

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod rhagor o waith yn cael ei wneud i sicrhau bod y costau y bydd awdurdodau lleol yn eu hwynebu wrth ddiweddarau'r System Rheoli Etholiadol yn gadarn. Dylai'r wybodaeth hon gael ei chynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig a gyhoeddir ar ôl trafodion Cyfnod 2 a dylai nodi safbwyntiau'r awdurdodau lleol ar briodoldeb y costau hyn..... Tudalen 22

Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Biliau arfaethedig gan Gomisiwn y Cynulliad yn y dyfodol yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael i sicrhau bod y Pwyllgor Cyllid yn gallu craffu'n effeithiol ar yr holl gostau sy'n gysylltiedig â'r cynigion. Tudalen 27

Argymhelliad 11. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Llywydd yn cynnwys costau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chodi ymwybyddiaeth o estyn yr etholfraint i bobl 16 oed yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig a gyhoeddir ar ôl trafodion Cyfnod 2. Tudalen 27

Argymhelliad 12. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Llywydd, Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Etholiadol yn sicrhau bod cymdeithas sifil, megis ysgolion a sefydliadau ieuenctid yn cael eu cynnwys ar Fwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru, Bwrdd Allanol Llywodraeth Cymru o gynghorwyr a byrddau cydweithredol eraill sy'n gweithio i hyrwyddo ymwybyddiaeth pleidleiswyr, er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cyfrannu at waith i ddylunio deunydd ymwybyddiaeth pleidleiswyr. Tudalen 27

Argymhelliad 13. Mae'r Pwyllgor yn argymhell, mewn perthynas â newidiadau i drefniadau goruchwylio ac ariannu'r Comisiwn Etholiadol cyn i Gyfnod 2 fynd rhagddo, y dylid darparu gwelliannau drafft a'u goblygiadau cost i roi cyfle i'r Pwyllgor Cyllid graffu arnynt yn llawn cyn ei bod yn ofynnol i Bwyllgor o'r Cynulliad Cyfan waredu gwelliannau. Tudalen 34

Argymhelliad 14. Yn seiliedig ar sylwadau Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag adran 36, mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Llywydd yn ystyried diwygio'r Bil i adlewyrchu safbwyntiau Llywodraeth Cymru..... Tudalen 38

Argymhelliad 15. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y caiff darpariaeth ar gyfer adolygiad ôl-weithredol ei chynnwys yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig yn dilyn trafodion Cyfnod 2 er mwyn sicrhau bod y Bil wedi cyflawni ei amcanion polisi a bod gwerth am arian wedi'i gyflawni.....Tudalen 40

1. Cyflwyniad

1. Cyflwynwyd y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) (y Bil) a'r Memorandwm Esboniadol gan Elin Jones AC, y Llywydd, ar 12 Chwefror 2019.

2. Nododd Memorandwm Esboniadol y Bil y canlynol:

“Ar ran y Cynulliad, mae Comisiwn y Cynulliad yn arwain rhaglen ddiwygio i sicrhau bod y Cynulliad yn sefydliad hygyrch a blaengar, sy'n gwasanaethu pobl Cymru yn effeithiol drwy:

- newid enw'r sefydliad cyn diwedd tymor y Cynulliad yn 2021 i adlewyrchu ei sefyllfa gyfansoddiadol fel y prif sefydliad democrataidd yng Nghymru;
- sicrhau bod gan y Cynulliad y nifer briodol o Aelodau sydd eu hangen arno i wneud ei waith, a bod trefniadau cadarn ac egwyddorol ar waith i'w hethol;
- adfywio'r broses ddemocrataidd drwy ostwng yr oedran pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad i 16 oed, i ysbrydoli ac annog pobl ifanc i gymryd rhan;
- sicrhau bod y darpariaethau deddfwriaethol sy'n sail i drefniadau mewnol, trefniadol a gweithdrefnol y Cynulliad yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng cadernid a'r hyblygrwydd sy'n briodol ar gyfer deddfwrfa genedlaethol; ac
- annog mwy o ymgysylltiad rhwng y Cynulliad a'r bobl y mae'n eu gwasanaethu, a sicrhau bod pobl yn deall yn well beth mae'r Cynulliad a Chomisiwn y Cynulliad yn ei wneud.¹”

3. Cymerodd y Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) dystiolaeth am oblygiadau ariannol y Bil gan y canlynol:

- Jeremy Miles AC, Cwnsler Cyffredinol Cymru;
- Yr Athro Elan Closs Stephens CBE, Comisiynydd Etholiadol;

¹ Memorandwm Esboniadol

- Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr, Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Aeth Manon Antoniazzi i'r sesiwn yn ei rôl fel Prif Swyddog Cyfrifyddu Comisiwn y Cynulliad);
- Elin Jones AC, y Llywydd (Yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil).

4. Penododd y Pwyllgor Dr Toby James, Prifysgol East Anglia, fel Cyngorwr Arbenigol Annibynnol i helpu gyda'r ymchwiliad.

5. Gwnaed gwaith craffu ar bolisi'r Bil gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Cefndir y Bil

6. Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad) yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

7. Sefydlwyd y Cynulliad yn wreiddiol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 ac mae wedi cael newidiadau sylweddol i'w strwythur a'i swyddogaethau ers ei sefydlu'n wreiddiol. Ers 1998, mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Deddf Cymru 2014 a Deddf Cymru 2017 oll wedi newid pwerau'r Cynulliad.

8. Yn dilyn Deddf Cymru 2017, mae'r Cynulliad bellach yn gweithredu ar sail model cadw pwerau newydd. Mae Deddf Cymru 2017 hefyd yn rhoi'r pŵer i'r Cynulliad wneud penderfyniadau mewn perthynas â maint ac enw'r sefydliad a sut y caiff Aelodau eu hethol, yn ogystal â'i drefniadau mewnol.

9. Mae'r Bil yn cynnwys chwe rhan, gan gynnwys trosolwg yn Rhan 1.

- Mae Rhan 2 yn newid enw'r sefydliad o Gynulliad Cenedlaethol Cymru/National Assembly for Wales i'r "Senedd", ac yn gwneud newidiadau canlyniadol i enwau, teitlau a disgrifiadau perthnasol.
- Mae Rhan 3 yn gostwng yr oedran pleidleisio ar gyfer etholiadau'r Cynulliad i 16 oed, ac yn diwygio'r trefniadau cofrestru etholiadol cysylltiedig.
- Mae Rhan 4 yn diwygio'r gyfraith sy'n ymwneud ag anghymhwysu person rhag bod yn Aelod Cynulliad;
- Mae Rhan 5 yn estyn y dyddiad olaf ar gyfer cyfarfod cyntaf y Cynulliad ar ôl etholiad ac yn egluro pwerau Comisiwn y Cynulliad i godi tâl am nwyddau a gwasanaethau.

- Mae Rhan 6 yn cynnwys dehongliad cyffredinol sy'n cynnwys maint y Bil a darpariaeth ynghylch pryd a sut y daw'r Bil i rym.

Asesiad Effaith Rheoleiddiol

10. Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gynnwys yn y Memorandwm Esboniadol sy'n amlinellu goblygiadau ariannol y Bil. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i strwythuro ar sail pob amcan polisi ac yn cymharu costau amcangyfrifedig pob opsiwn ac yn darparu cyfrifiadau ar gyfer cyrraedd y costau hyn.

11. Yn seiliedig ar yr opsiwn a ffefrir ar gyfer pob amcan polisi yn y Bil, cyfanswm y gost a amcangyfrifir sy'n deillio o'r Bil yw £2.757 miliwn dros bum mlynedd. Mae'r mwyafrif o'r costau amcangyfrifedig (87.2 y cant) yn ymwneud â'r bwriad i ostwng yr oedran pleidleisio i 16 oed.

12. Disgwylir i'r costau gael eu talu gan awdurdodau lleol, Comisiwn y Cynulliad, Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Etholiadol. Awdurdodau lleol fydd yn talu am bron tri chwarter, ychydig dros £2 filiwn, o'r costau.

13. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cyflwyno'r amcangyfrifon cost ar gyfer yr holl opsiynau fel union ffigurau, yn hytrach na nodi ystod o gostau posibl i adlewyrchu unrhyw ansicrwydd yn y costau. Yn ogystal, nid yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys dadansoddiad sensitifrwydd i roi prawf ar effaith newid unrhyw un o'r prif dybiaethau a ddefnyddiwyd yn y cyfrifiadau.

2. Rhan 2: Enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y cefndir

14. Mae Rhan 2 yn gwneud darpariaeth i newid enw'r Cynulliad i'r "Senedd" ac i wneud newidiadau cysylltiedig eraill. Mae'r Bil yn nodi y caiff y Senedd ei hadnabod hefyd fel "Welsh Parliament".

15. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud bod hyn yn:

"Sicrhau bod enw'r sefydliad yn adlewyrchu ei sefyllfa gyfansoddiadol, a gwella dealltwriaeth y cyhoedd o rôl a chyfrifoldebau'r ddeddfwrfa."²

16. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i'r newid enw ddod i rym ar 6 Mai 2020. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud bod hyn yn:

"12 mis yn union cyn dyddiad etholiad y Cynulliad a drefnir ym mis Mai 2021. Mae'r amcangyfrifon yn seiliedig ar y dybiaeth y byddai'r Bwrdd Taliadau yn dweud wrth yr Aelodau am beidio â gwneud hawliadau arwyddion sy'n ymwneud â newid enw cyn etholiad 2021."

17. Y costau amcangyfrifedig yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Comisiwn y Cynulliad mewn perthynas â'r newid enw yw £172,600 dros bum mlynedd: £170,700 o ran costau trosiannol a £1,900 o ran costau parhaus. Amcangyfrifir £122,000 o ran costau ar gyfer sefydliadau eraill megis awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru wrth ddiweddarau gwefannau ac arwyddion ffyrdd.

Tystiolaeth gan dystion

18. Dywedodd Prif Weithredwr y Cynulliad (y Prif Weithredwr) y cynhaliwyd ymarferiad cadarn i asesu'r costau mewn perthynas â'r newid enw a bod "pob rhan o'r mudiad wedi edrych ... ar rheina ac wedi mynd trwyddyn nhw".³

19. Ychwanegodd y cymerwyd cyfleoedd "i leihau'r gost", gan esbonio bod y Comisiwn wedi penderfynu peidio ag ymgymryd ag ymarferiad ail-frandio llwyr "felly, fydd yna ddim logo newydd ar gyfer enw newydd".⁴

20. Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai llawer o'r newidiadau mewn perthynas â'r newid enw'n digwydd ar unwaith gan gynnwys diweddarau penawdau llythyrau,

² Memorandwm Esboniadol

³ Cofnod y Trafodion, paragraff 18, 4 Ebrill 2019

⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 18, 4 Ebrill 2019

gwefannau a chardiau busnes “lle mae yna *turnover* eithaf sydyn ac mae’r stociau’n mynd i fod yn cael eu rheoli’n iawn ac mae’n hawdd i’w hadnewyddu nhw”.⁵

21. O ran ailosod arwyddion, dywedodd y Prif Weithredwr y canlynol:

“... mater i’r bwrdd taliadau bydd talu am arwyddion yn y pen draw, ac mae yna dybiaethau wedi cael eu hadeiladu i mewn i’r costau bydd arwyddion yn aros am flwyddyn, achos, wrth gwrs, mewn rhai achosion, efallai na fydd yr un enw ar yr arwyddion, felly mi fydd yn fodd i leihau’r costau. Os gallwn ni aros tan y flwyddyn 2021, yna mi fydd modd dechrau’r chweched Cynulliad efo set gyfan o arwyddion heb gost ychwanegol i’r pwrs cyhoeddus. Ond, yn amlwg, mi fydd hwnna’n fater i Aelodau unigol i benderfynu.”⁶

22. Adleisiodd y Llywydd y pwyntiau a wnaed gan y Prif Weithredwr a dywedodd ei bod wedi dilyn trywydd darbodus o ran y newid enw ac wedi edrych ar fod mor effeithiol â phosib ynglŷn â chyn lleied o gost byddai hyn yn ei golygu. Ychwanegodd:

“... drwy wneud rhai materion fel newid enw, ddim newid logo a newid yr holl faterion sy’n mynd o gwmpas rhyw *rebrand* llawn—felly, elfen weddol o ofalus ar sut rŷn ni yn gwario ar hyn oll.”⁷

23. Tynnodd y Llywydd sylw at bwysigrwydd cyfansoddiadol y newid enw, gan nodi’r canlynol:

“...yn fwy cyffredinol, wrth gwrs, beth rŷn ni’n edrych i gyflawni drwy hyn yw bod pobl Cymru yn dod yn fwy cyfarwydd â’r gwahaniaeth rhwng beth sy’n Senedd a beth sy’n Lywodraeth, ac ein bod ni nawr yn galw ein hunain yr hyn yr ydyn ni ac yn gwneud hynny’n glir i bobl Cymru fel bod dealltwriaeth pobl Cymru o’r hyn sy’n cael ei gyflawni yn y lle yma ar eu rhan nhw yn well. Gobeithio fydd hwn yn para am ganrif a mwy i ddod, a dyw e ddim yn rhywbeth bydd Cynullïadau yn y pump, 10, 15 mlynedd nesaf yn gorfod edrych arno eto.”⁸

⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 20, 4 Ebrill 2019

⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 20, 4 Ebrill 2019

⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 139, 4 Ebrill 2019

⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 139, 4 Ebrill 2019

24. Mewn perthynas â'r ddarpariaeth yn y Bil i'r newid enw ddod i rym ar 6 Mai 2020 a'r dybiaeth yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol na fyddai'r arwyddion yn cael eu diweddarau tan yr etholiad nesaf yn 2021, dywedodd y Llywydd y canlynol:

“Mae'n fy nharo i, o ran bod yn ddarbodus ar arian cyhoeddus, fod yna elfen efallai o wastraff arian cyhoeddus os byddai rhywun naill ai ddim yn sefyll ar gyfer etholiad 2021 ond yn dymuno newid yr arwydd am flwyddyn yn unig, neu ychwaith rywun sy'n colli etholiad yn 2021, ac mae'r arwydd yna'n gorfod newid ar y pwynt yna beth bynnag. Felly, fy marn i oedd i ddilyn y trywydd mwy darbodus yn hyn o beth, ond efallai bydd y bwrdd taliadau ac efallai eich pwyllgor chi hefyd yn cymryd barn wahanol.”⁹

Safbwynt y Pwyllgor

25. Byddai'r Pwyllgor wedi hoffi gweld mwy o fanylion am y dadleuon dros yr angen i newid yr enw ar 6 Mai 2020, yn hytrach na mis Mai 2021. Dywedodd y Prif Weithredwr y gall y Bwrdd Taliadau gyhoeddi canllawiau i'r Aelodau ar ailosod arwyddion ond y gallai gael ei adael i ddisgresiwn yr Aelodau unigol. O ystyried y tybiaethau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol na fyddai rhai arwyddion yn cael eu diweddarau tan ar ôl etholiadau mis Mai 2021, mae'r Pwyllgor yn credu y dylid rhoi mwy o gyfarwyddyd i'r Aelodau er mwyn sicrhau na chaiff arwyddion eu diweddarau'n ddiangen.

26. Fodd bynnag, er bod y Pwyllgor yn deall bod trywydd mwy darbodus wedi'i ddilyn, mae'r Aelodau o'r farn bod y newid enw'n arwyddocaol, o ystyried mai'r nod yw adlewyrchu sefyllfa gyfansoddiadol y sefydliad a gwella dealltwriaeth y cyhoedd. Felly, mae pryder gan y Pwyllgor y gallai peidio ag adlewyrchu'r newid enw newydd ar yr holl arwyddion ar unwaith arwain at ddryswch.

Casgliad 1. Mae'r Pwyllgor yn credu bod y costau mewn perthynas â newid enw'r Cynulliad yn gymesur ac yn dryloyw ar y cyfan a bod yr opsiwn mwyaf cost-ffeithiol yn cael ei ddilyn.

Argymhelliad 1. Gan gydnabod y manteision cost o beidio ag ailosod arwyddion ar unwaith, mae pryder gan y Pwyllgor y gallai'r trywydd hwn arwain at ddryswch ychwanegol gan y cyhoedd ynghylch rôl y Cynulliad a Llywodraeth Cymru. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Llywydd a Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos i sicrhau bod newidiadau'n cael eu cyfleu'n glir er mwyn codi ymwybyddiaeth y cyhoedd.

⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 123, 4 Ebrill 2019

3. Rhan 3: Etholiadau

Y cefndir

27. Mae Rhan 3 yn gwneud darpariaethau ar gyfer gostwng yr oedran pleidleisio i bobl 16 a 17 oed yn etholiadau'r Cynulliad ar neu ar ôl 5 Ebrill 2021. Mae Rhan 3 hefyd yn gweithredu diwygio trefniadau cofrestru etholiadol cysylltiedig.

28. Cyfanswm y gost amcangyfrifedig ar gyfer Rhan 3 o'r Bil, fel y nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, yw £2.404 miliwn, gydag awdurdodau lleol yn talu £1.924 miliwn (80 y cant) o hyn.

Cofrestru pobl 16 a 17 oed

29. Mae'r costau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer cofrestru pobl 16 a 17 oed yn seiliedig ar y gost gweinyddiaeth etholiadol ym Mhrydain Fawr: Arolygon gwybodaeth ariannol 2009-10 a 2010-11. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi nad "oes ffigurau diweddarach ar gael".¹⁰

30. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol fod y ffigurau yn yr adroddiad arolygon Gwybodaeth Ariannol yn darparu'r gost gwbl gynhwysfawr ddiwethaf fesul etholwr. Fodd bynnag, nododd y gallai newidiadau arfaethedig i'r trefniadau canfasio a gynigiwyd gan Lywodraeth y DU newid y ffigurau hynny.¹¹

31. Dywedodd Dr James wrth y pwyllgor fod ei ymchwil wedi dangos bod costau cofrestru etholiadol wedi cynyddu'n sylweddol ar ôl cyflwyno dull cofrestru etholiadol unigol.¹²

32. Roedd pryderon sylweddol hefyd gan Gymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol ynghylch defnyddio adroddiadau'r arolygon.¹³ Dywedodd:

“The Bill states that the costs used to calculate the average cost per voter as being taken from financial information surveys dated 2009-10 and 2010-11 plus inflation. However, these costs are significantly

¹⁰ Memorandwm Esboniadol

¹¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 58, 21 Mawrth 2019

¹² Toby S. James (2014) “The Spill-over and Displacement Effects of Implementing Election Administration Reforms: Introducing Individual Electoral Registration in Britain”, *Parliamentary Affairs*, 67 (2): 281-305.

Toby S. James (2019) *Comparative Electoral Management: Performance, Networks and Instruments* (Routledge: Llundain ac Efrog Newydd)

¹³ Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol

underestimated and out of date due to the introduction of IER [Individual Electoral Registration] from 10 June 2014 through provisions in the Electoral Registration and Administration Act 2013.”¹⁴

33. Esboniodd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol y cyflwynodd Cofrestru Etholiadol Unigol broses gofrestru ddau gam, gyda phob aelwyd yn llenwi Ffurflen Ymholiad Aelwyd ac yna pob ymgeisydd cymwys yn llenwi Gwahoddiad i Gofrestru, ynghyd â nodiadau atgoffa a dilynol (gan gynnwys canfasio personol) yn ôl yr angen ar gyfer y ddwy broses.¹⁵ Parhaodd:

“In addition, online registration, which was introduced at the same time as IER, makes registration easier and more accessible but has other implications such as increased volume of registrations, often immediately before election registration deadlines ahead of elections, and applications from existing electors, i.e. duplicates. The current true costs of registration therefore need to be identified. The UK Government’s Cabinet Office should be able to assist in providing the average cost per elector under IER.”¹⁶

34. Mae swyddog y Llywydd yn cydnabod y byddai costau sy’n seiliedig ar adroddiadau arolygon gwybodaeth ariannol wedi dyddio’n sylweddol. Fodd bynnag, dywedodd mai dyna’r unig adroddiad a oedd yn cynnwys ystod eang o gostau etholiadol, a’i bod felly’n credu mai dyma’r sail orau ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.¹⁷

35. Nododd y Cwnsler Cyffredinol mai awdurdodau lleol fyddai’n talu’r rhan fwyaf o’r costau o ganlyniad i’r Bil. Dywedodd:

“In terms of the funding of that additional, incremental cost, that’ll be just a matter that is taken into account in the local government settlement in the usual way.”¹⁸

36. Roedd gan Gymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol bryderon sylweddol y disgwylir i awdurdodau lleol dalu’r costau ychwanegol ar adeg pan fo’u cyllidebau wedi gostwng yn sylweddol ac roedd pryderon na fyddai cyllid ar gael i dalu’r costau ychwanegol hyn.¹⁹ Cydnabu’r Llywydd y byddai awdurdodau lleol yn talu’r

¹⁴ [Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol](#)

¹⁵ [Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol](#)

¹⁶ [Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol](#)

¹⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 107, 4 Ebrill 2019

¹⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 19, 21 Mawrth 2019

¹⁹ [Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol](#)

prif gostau sy'n deillio o'r Bil o ganlyniad i estyn yr etholfraint i bobl 16 a 17 oed. Dywedodd ei swyddog y canlynol:

"We've had conversations with the WLGA and with a number of individual local authorities. We've also had dialogue with Socitm [Society of Information Technology Management], the society of all Wales's local authorities' directors of ICT, so that there's been ongoing engagement with local authorities around their potential costings in the Bill."²⁰

37. Roedd y Pwyllgor yn awyddus i drafod y ffyrdd y gellid lleihau costau cynnal etholiadau a/neu sut y gallai gwariant fod yn fwy cost-effeithiol.

38. Cadarnhaodd y Cwnsler Cyffredinol mai cost etholiad diwethaf y Cynulliad yn 2016 oedd £7 miliwn gydag "ychydig dros £3 miliwn yn mynd i lywodraeth leol ac ychydig o dan £4 miliwn yn mynd i'r Post Brenhinol i dalu am gostau danfon cynnwys drwy'r post ac ati".²¹

39. Cododd y Pwyllgor bryderon am y taliadau sylweddol a wnaed i Swyddogion Canlyniadau.²² Gofynnodd y Pwyllgor i'r Cwnsler Cyffredinol a ystyriwyd a ddylid parhau i dalu Swyddogion Canlyniadau am ei rôl yn y dyfodol.

40. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol y canlynol:

"...those considerations are already ongoing. My rudimentary, ... understanding is some of the issues around this relate to the line of accountability, which comes from the source of payment, and the question of the independence of the returning officer from the local authority in the context of delivering the electoral functions."²³

41. Ychwanegodd swyddog y Cwnsler Cyffredinol y canlynol:

"We looked at it as part of the consultation on the local government Bill, so it's under consideration whether or not returning officers would be

²⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 115, 4 Ebrill 2019

²¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 34, 21 Mawrth 2019

²² Mae Swyddogion Canlyniadau yn gyfrifol am weinyddu etholiadau ac yn cael tâl am y rôl hon. Ar hyn o bryd, dim ond yr Uchafswm Lwfans Adenilladwy sy'n cael ei gyhoeddi, sef y swm y gall Swyddogion Canlyniadau ei hawlio hyd ato.

²³ Cofnod y Trafodion, paragraff 39, 21 Mawrth 2019

continued to be paid fees as part of their role in the future, and that might be a part of the forthcoming local government Bill.”²⁴

42. Trafododd y Pwyllgor hefyd yr arbedion cost posibl ac arbedion effeithlonrwydd gwell o ran cofrestru pobl 16 oed yn awtomatig pan gyhoeddir eu Rhif Yswiriant Gwladol.

43. Cytunodd y Cwnsler Cyffredinol y byddai hyn yn ateb haws a mwy cost-effeithiol na’r broses gofrestru bresennol.²⁵ Dywedodd ei swyddog y canlynol:

“We’re looking into it and we’ve certainly been looking into it around the local government Bill. There are complexities around when a person would go on the register, if we linked it directly to when they received their national insurance number, and ensuring that every single person who is eligible to vote on voting day was on the register, so there are things around real-time updating of the register. The indicative costs that we’ve got at the moment show that implementing that will be a very costly exercise, but in the long run, it probably will see cost savings through automatic registration.”²⁶

44. Ychwanegodd swyddog y Cwnsler Cyffredinol y canlynol:

“we’re hoping that the provision, if it’s agreed—we could look at an enabling power in the local government Bill that would allow local authorities to do that if they wanted to after the next set of local government elections.”²⁷

45. Dywedodd y Comisiwn Etholiadol y byddai mentrau megis cofrestr ganolog ar gyfer Cymru ac agweddau ar gofrestru awtomatig yn helpu i gael gwared ar rywffaint o’r gwastraff a geir oherwydd pethau fel dyblygu o ran pobl sy’n cofrestru sydd eisoes wedi cael eu cofrestru i bleidleisio.²⁸

46. Dywedodd swyddog y Llywydd fod y Comisiwn Etholiadol wedi argymhell yn y gorffennol y dylid trafod dull cofrestru awtomatig.²⁹ Fodd bynnag, dywedodd y

²⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 40, 21 Mawrth 2019

²⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 62, 21 Mawrth 2019

²⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 63, 21 Mawrth 2019

²⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 65, 21 Mawrth 2019

²⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 90, 27 Mawrth 2019

²⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 148, 4 Ebrill 2019

Llywydd fod y broses gofrestru yn fater i Lywodraeth Cymru nid i ni ymgymryd ag ef yn y darn hwn o deddfwriaeth.³⁰

Safbwynt y Pwyllgor

47. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod y Llywydd wedi gweithio gyda'r Comisiwn Etholiadol a Llywodraeth Cymru o ran costau gostwng yr oedran pleidleisio. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn nodi y bydd awdurdodau lleol yn talu'r prif gostau sy'n gysylltiedig â'r newid hwn ac, er bod y Llywydd wedi nodi y bu trafodaethau â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) ac awdurdodau lleol unigol, nad yw hyn wedi'i nodi'n glir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

48. Mae'r Pwyllgor yn cyfeirio at argymhelliad blaenorol y mae wedi'i wneud yn ei adroddiad ar yr amcangyfrifon ariannol sy'n mynd gyda deddfwriaeth, Hydref 2017:

“Argymhelliad 9: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau y caiff rhanddeiliaid perthnasol eu hymgysylltu â'r broses pan fydd yn creu costau ac y gall rhanddeiliaid roi sylwadau a mewnbwn i'r costau hynny a chadarnhau p'un a ydynt yn cytuno.”

49. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai egwyddor yr argymhelliad hwn gael ei chymhwyso i bob Bil, nid deddfwriaeth Llywodraeth Cymru yn unig, ac mae'n siomedig nad yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn rhoi'r holl fanylion ar sut y mae awdurdodau lleol a sefydliadau cynrychiadol wedi cyfrannu a gwneud sylwadau ar y costau.

50. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod yr amcangyfrifon cost ar gyfer gweinyddu'r gofrestr etholiadol yn dibynnu ar hen wybodaeth o'r ddogfen Cost gweinyddiaeth etholiadol ym Mhrydain Fawr: Arolygon gwybodaeth ariannol 2009-10 a 2010-11. Mae'r Pwyllgor yn siomedig na cheisiwyd gwybodaeth fwy cyfoes gan awdurdodau lleol a Swyddfa Cabinet Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r gost gyfartalog fesul etholwr dan y dull Cofrestru Etholiadol Unigol.

51. Mae'r Pwyllgor yn credu ei bod yn werth i gofrestru pobl 16 oed i bleidleisio yn awtomatig ar ôl cael eu Rhif Yswiriant Gwladol gael ei drafod ymhellach. Gan ddeall bod y costau gweithredu'n debygol o fod yn uchel, mae'r Pwyllgor yn credu y gellid gwneud arbedion cost tymor hir drwy atal awdurdodau lleol rhag treulio amser ac yn ymdrechu i gofrestru pobl a allai gael eu cofrestru'n awtomatig drwy ddefnyddio ffynonellau data eraill.

³⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 147, 4 Ebrill 2019

52. Os na chaiff y dull cofrestru awtomatig ei gyflwyno neu os na ellir ei gyflawni ar unwaith, mae'r Pwyllgor o'r farn y gallai rhoi gwybod i bobl 16 oed am eu hawl i bleidleisio yn y llythyr a gânt gan yr Adran Gwaith a Phensiynau pan gyhoeddir eu Rhif Yswiriant Gwladol fod yn fesur interim. Gallai'r llythyr hwn gynnwys linc i'r wefan gofrestru a chyfarwyddiadau i'w defnyddio.

53. Mae pryder gan y Pwyllgor oherwydd bwriad Llywodraeth Cymru y gallai pŵer galluogi gael ei gynnwys mewn Bil Llywodraeth Leol yn y dyfodol i ganiatáu'r dull cofrestru awtomatig ar gyfer etholiadau llywodraeth leol. Mae'r Pwyllgor yn credu y gallai hyn olygu y bydd y 22 o awdurdodau lleol yn dewis gweithredu systemau gwahanol, nad ydynt o bosibl yn gost-effeithiol ac a allai arwain at ddryswch i'r etholwyr.

54. Mae'r Pwyllgor yn credu ei bod yn hanfodol mai symleiddio'r system, nid atgyfnerthu'r system gymhleth bresennol, y dylai diben y Bil hwn a'r Bil Llywodraeth Leol arfaethedig gan Lywodraeth Cymru fod.

55. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai Llywodraeth Cymru a'r Llywydd drafod a gwneud cynnydd tuag at gyflwyno un gofrestr etholiadol ar gyfer etholiadau llywodraeth leol Cymru a'r Cynulliad. Mae'r Pwyllgor yn credu mai'r brif fantais o gael un gofrestr etholiadol yw y byddai'n debygol o osgoi cofnodion dyblyg ac y gallai wella cywirdeb.

56. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r wybodaeth a roddwyd gan y Cwnsler Cyffredinol am y costau sy'n gysylltiedig â gweinyddu etholiad diwethaf y Cynulliad yn 2016. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai awdurdodau lleol hefyd gyhoeddi'r costau sy'n gysylltiedig â llunio'r gofrestr etholiadol.

57. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r anawsterau sydd wedi codi wrth amcangyfrif costau'r Bil oherwydd diffyg data cyhoeddedig gan mai yn 2011 y cynhaliwyd yr astudiaeth ddiwethaf o gyllido etholiadau gan y Comisiwn Etholiadol. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai'r Comisiwn Etholiadol gasglu a chyhoeddi'r wybodaeth hon gydag adroddiadau rheolaidd.

58. Mae'r Pwyllgor yn nodi y trafodwyd taliadau Swyddogion Canlyniadau fel rhan o ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Bil Llywodraeth Leol arfaethedig. Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylid cynnal adolygiad o'r ffioedd a delir i Swyddogion Canlyniadau fel rhan o'r Uchafswm Lwfans Adenilladwy gyda'r bwriad o drafod a oes modd gwneud arbedion cost.

Argymhelliad 2. Gan yr amcangyfrifir mai awdurdodau lleol fydd yn talu'r rhan fwyaf o'r costau ar gyfer newidiadau i'r etholfraint, mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Llywydd gynnal mwy o ymchwil i ddilysu neu ddiweddarau'r costau hyn,

neu ymhelaethu ar sut roedd awdurdodau lleol wedi cymeradwyo'r costau. Dylid cynnwys y wybodaeth hon yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig a gyhoeddir ar ôl trafodion Cyfnod 2.

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Llywydd a Llywodraeth Cymru yn trafod rhinweddau cyflwyno un gofrestr etholiadol ar gyfer etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru ac etholiadau'r Cynulliad, gan y gallai hyn olygu llai o lwyth gwaith gweinyddol i awdurdodau lleol na chynnal 22 o gofrestri ar wahân. Dylai'r Llywydd a Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Cyllid cyn cyflwyno'r Bil Llywodraeth Leol arfaethedig.

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Llywydd a Llywodraeth Cymru yn trafod yr arbedion cost posibl ar gyfer y dull cofrestru awtomatig. Dylai'r Llywydd a Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Cyllid cyn cyflwyno'r Bil Llywodraeth Leol arfaethedig.

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi'r costau sy'n gysylltiedig â gweinyddu etholiadau llywodraeth leol Cymru yn rheolaidd ac yn gyflym ac mae'n disgwyl i'r wybodaeth hon gael ei chynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol sydd i ddod ar gyfer y Bil Llywodraeth Leol arfaethedig.

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod awdurdodau lleol yn cyhoeddi'n rheolaidd ac yn gyflym y gwariant blynyddol ar lunio'r gofrestr etholiadol er mwyn sicrhau mwy o dryloywder.

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid diwygio'r Bil hwn i ddarparu, ar wyneb y Bil, ddarpariaethau i sicrhau bod gwariant etholiadau'r Cynulliad yn cael ei gyhoeddi cyn gynted â phosibl yn dilyn etholiadau a refferenda'r Cynulliad.

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r ffioedd a delir i Swyddogion Canlyniadau fel rhan o'r Uchafswm Lwfans Adenilladwy gyda'r bwriad o drafod a oes modd gwneud arbedion cost. Mae'r Pwyllgor yn disgwyl i'r wybodaeth hon gael ei chynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol sydd i ddod ar gyfer y Bil Llywodraeth Leol arfaethedig.

Meddalwedd System Rheoli Etholiadol (EMS)

59. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn amcangyfrif y bydd yn costio £636,300 i ddiweddarau'r System Rheoli Etholiadol. Mae hyn yn seiliedig ar y Nodiadau Esboniadol a luniwyd gan Lywodraeth yr Alban ar gyfer Nodiadau Esboniadol Deddf Etholiadau'r Alban (Gostwng yr Oedran Pleidleisio) 2015.

60. Fodd bynnag, defnyddiwyd gweithdrefn garlam ar gyfer y Bil yn yr Alban ac ni wnaeth Pwyllgor Cyllid yr Alban waith craffu ariannol ar y Bil hwn. Ysgrifennodd Pwyllgor Cyllid yr Alban at y Pwyllgor arweiniol yn dweud y canlynol:

“... given these truncated timescales it will not be possible for the Finance Committee to meaningfully scrutinise the FM [Financial Memorandums]. I am therefore writing to confirm that the Finance Committee does not intend to submit any views on the FM to your committee. I have also written to the Deputy First Minister to inform him.”

61. Cadarnhaodd y Llywydd mai'r gost fwyaf sylweddol i awdurdodau lleol fyddai diweddarau'r feddalwedd. Ychwanegodd ei swyddog y canlynol:

“some of the Scottish cost estimates used were based on actual quotes received from suppliers in Scotland, so I'm thinking here of things like the electoral management system. Although such costs weren't, therefore, scrutinised at the time, they were robustly calculated.”

62. Dywedodd swyddog y Llywydd fod costau'r Alban wedi cael eu huwchraddio ar gyfer Cymru a, lle y bo'n bosibl, eu dilysu gyda rhanddeiliaid.³¹

Safbwynt y Pwyllgor

63. Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn dibynnu ar wybodaeth o Nodiadau Esboniadol Deddf Etholiadau'r Alban (Gostwng yr Oedran Pleidleisio) 2015. Mae'r Pwyllgor yn derbyn bod hwn yn ddull gweithredu rhesymol a bod gwybodaeth wedi'i diweddarau ar gyfer chwyddiant. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn pryderu y bu gwaith craffu cyfyngedig ar y costau ym Mil yr Alban.

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod rhagor o waith yn cael ei wneud i sicrhau bod y costau y bydd awdurdodau lleol yn eu hwynebu wrth ddiweddarau'r System Rheoli Etholiadol yn gadarn. Dylai'r wybodaeth hon gael ei chynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig a gyhoeddir ar ôl trafodion Cyfnod 2 a dylai nodi safbwyntiau'r awdurdodau lleol ar briodoldeb y costau hyn.

³¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 172, 4 Ebrill 2019

Codi ymwybyddiaeth

64. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn amcangyfrif y costau a ganlyn i sefydliadau mewn perthynas â hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r newid yn yr oedran pleidleisio dros bum mlynedd:

- Cynulliad Cenedlaethol Cymru £150,000;
- Awdurdodau Lleol £866,200;
- Y Comisiwn Etholiadol £75,900;
- Llywodraeth Cymru (Nid yw'r costau wedi'u meintioli).

65. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn tybio'r un gost o £39,400 ar gyfer pob un o'r 22 o awdurdodau lleol am godi ymwybyddiaeth. Felly, amcangyfrifir mai cyfanswm y gost ymwybyddiaeth ar gyfer pob un o'r 22 o awdurdodau lleol yw £866,200.

66. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn dweud nad yw'r Bil yn gosod dyletswyddau na rhwymedigaethau ar Lywodraeth Cymru i gynnal gweithgareddau codi ymwybyddiaeth mewn perthynas ag estyn yr etholfraint i bobl 16 oed.

67. Fodd bynnag, mae'n nodi bod Comisiwn y Cynulliad "o'r farn ei bod yn bwysig codi ymwybyddiaeth er mwyn ategu'r newidiadau deddfwriaethol" ac felly mae Comisiwn y Cynulliad a Llywodraeth Cymru wedi bod yn rhan o drafodaethau ar weithio ar y cyd i ddatblygu ystod o adnoddau i ategu hyn.

68. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn parhau:

"Nod Llywodraeth Cymru yw cynnal ymgyrch tair blynedd a fydd yn cynnwys etholiadau'r Cynulliad ac etholiadau llywodraeth leol. Bydd hyn yn cynnwys etholfraint llywodraeth leol i gynnwys gwladolion tramor, yn ogystal â phobl rhwng 16 a 17 oed. Nid yw cyfran y costau cyffredinol i Lywodraeth Cymru o ddatblygu adnoddau codi ymwybyddiaeth a fydd yn ymwneud yn benodol ag estyn etholfraint y Cynulliad yn hysbys ar hyn o bryd. O'r herwydd, nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn nad yw'r gost bosibl i Lywodraeth Cymru o godi ymwybyddiaeth mewn perthynas ag estyn etholfraint y Cynulliad i bobl 16 oed yn hysbys."

Tystiolaeth gan dystion

69. Dywedodd y Prif Weithredwr fod y ffigur o £150,000 ar gyfer codi ymwybyddiaeth Comisiwn y Cynulliad yn seiliedig ar yr hyn a wariwyd yn flaenorol ar ymgyrchoedd cyn etholiadau. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y gwariwyd £75,000 cyn yr etholiad diwethaf, ond dywedodd y byddai angen i Gomisiwn y Cynulliad, y tro hwn, “[g]reu deunyddiau penodol a thargedu cynulleidfaoedd ifanc yn benodol”.³²

70. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai Comisiwn y Cynulliad yn cyfrannu at ymgyrch ymwybyddiaeth gan nifer o randdeiliaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a’r Comisiwn Etholiadol ac y byddent yn gweithio’n agos “er mwyn gwneud yn siŵr bod ni ddim yn dyblygu”.³³

71. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol y byddai Llywodraeth Cymru am weithio gyda sefydliadau ieuenctid sy’n gweithio’n uniongyrchol gyda phobl ifanc “i sicrhau ein bod ni ddim yn unig yn cyrraedd pobl sydd yn yr ysgol, fel roeddwn i’n dweud, ond y bobl sydd yn mynd i gael yr hawl i bleidleisio”.³⁴

72. Cadarnhaodd y Comisiynydd Etholiadol hefyd fod y Comisiwn Etholiadol yn gweithio gyda nifer o asiantaethau partner sydd â phrofiad o weithio gyda phobl ifanc er mwyn sicrhau bod y negeseuon sydd gennym i’w cyfleu i’r grŵp newydd hwn yn cael eu cyflwyno’n effeithiol ac mewn ffordd briodol o ran costau.³⁵

73. Dywedodd y Comisiynydd Etholiadol fod Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru wedi cael ei sefydlu ac mai un o’r rhesymau am sefydlu’r bwrdd oedd sicrhau y gallai awdurdodau lleol ddysgu arfer gorau ganddynt ei gilydd. Mae cylch gorchwyl y Bwrdd yn dweud y canlynol:

“Bydd Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru yn chwarae rôl allweddol wrth gydlynu’r gwaith o gynllunio digwyddiadau a gweithgareddau etholiadol Cymru, ynghyd â phrosesau moderneiddio a diwygio etholiadol. Bydd rhaglen waith y Bwrdd yn cwmpasu etholiadau, refferenda, cofrestru etholiadol a moderneiddio etholiadol yn bennaf.

³² Cofnod y Trafodion, paragraff 34, 4 Ebrill 2019

³³ Cofnod y Trafodion, paragraffau 33 a 34, 4 Ebrill 2019

³⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 32, 21 Mawrth 2019

³⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 73, 27 Mawrth 2019

Bydd y Bwrdd yn helpu i sicrhau bod mwy o gydweithio rhwng Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a phartneriaid allweddol yng Nghymru.”³⁶

- 74.** Nid oedd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys costau i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â chodi ymwybyddiaeth. Nodwyd “anhysbys” ar gyfer y costau hyn ac maent wedi’u dangos fel sero. Fodd bynnag, ar 4 Ebrill 2019, cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol nifer o negeseuon mewn perthynas â’r Bil, gan gynnwys llythyr ar y cyd gan Julie James AC, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, a Kirsty Williams AC, y Gweinidog Addysg, at y Llywydd yn ddyddiedig 30 Ionawr 2019.
- 75.** Mae’r llythyr yn amlinellu costau Llywodraeth Cymru, sef tua £895,000 - £945,000, ar gyfer cynhyrchu deunydd addysgol i’w gyflwyno mewn ysgolion dros dair blynedd yn dechrau yn 2019-20. Cyfeiriodd y llythyr hefyd at sefydlu “Bwrdd Allanol Llywodraeth Cymru o gynghorwyr” i helpu gyda’r gwaith hwn.
- 76.** Gan fod y wybodaeth hon ar gael cyn cyflwyno’r Bil a’r Memorandwm Esboniadol, gofynnodd y Pwyllgor i’r Llywydd onid oedd digon o amser i gynnwys y wybodaeth hon yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Dywedodd y Llywydd y canlynol, “Rwy’n tybio bod hwnna’n gywir”.³⁷
- 77.** Eglurodd swyddog y Llywydd fod costau Llywodraeth Cymru, sef £895,000 - £945,000, hefyd yn cynnwys gweithgarwch i godi ymwybyddiaeth ymhlith dinasyddion nad ydynt o’r UE na’r Gymanwlad, gan adlewyrchu bwriad Llywodraeth Cymru hefyd i estyn yr etholfraint i ddinasyddion tramor ar gyfer etholiadau llywodraeth leol.³⁸
- 78.** Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol y canlynol:

“Fe wnaethoch chi sôn am yr elfen o godi ymwybyddiaeth yn gyffredinol. Mae’r ffigurau rhyw £215,000 i £250,000 neu £260,000. Mae’r rheini’n teimlo fel petasen nhw yn y man iawn yn gyffredinol, ond ar ben hynny hefyd bydd angen darparu adnoddau addysgiadol ar gyfer ysgolion a hefyd ar gyfer cyrraedd pobl sydd tu allan i’r system addysg sydd yn mynd i gael yr hawl i bleidleisio. Mae hynny, rwy’n credu, yn rhyw £600,000 o gyllideb. O ran sicrhau bod dim dyblygu, mae hyn yn rhywbeth rydym ni’n gweithio ar y cyd gyda phanel o

³⁶ Cylch Gorchwyl: Bwrdd Cydlynw Etholiadol Cymru

³⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 206, 4 Ebrill 2019

³⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 207, 4 Ebrill 2019

ymgynghorwyr allanol arno i sicrhau ein bod ni'n dyfeisio cynllun sydd yn sicrhau ei fod e'n cyrraedd pobl ond heb ddyblygu. Hefyd, mae'r Gweinidog tai a'r Gweinidog Addysg wedi cytuno i weithio'n agos gyda'r Comisiwn i sicrhau bod hyn yn digwydd mewn ffordd sy'n effeithlon.”³⁹

79. Tynnodd y Pwyllgor sylw, pan estynnodd yr Alban yr etholfraint i bobl 16 a 17 oed, y cafodd gwaith i godi ymwybyddiaeth ei helpu oherwydd y refferendwm annibyniaeth mwy proffil uchel, sylw cysylltiedig yn y cyfryngau ac awydd gan bobl 16 a 17 oed i gymryd rhan.

80. Ar y pwynt hwn cyfeiriodd y Llywydd at adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad gan ddweud y canlynol:

“wnaeth y panel yna sôn bod cyflwyno'r newid yn yr etholfraint mewn etholiad Cynulliad yn gyntaf yn hytrach na mewn etholiad llywodraeth leol hefyd yn ffordd o sicrhau bod yr etholiad sydd â'r fwyaf o sylw cenedlaethol, a mwy o statws cenedlaethol, o bosib—'*higher salience*', dwi'n meddwl oedd y term a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwnnw— yn ffordd o sicrhau bod yr ymwybyddiaeth yna'n uwch nag os byddai hyn yn cael ei gyflwyno gyntaf ar gyfer llywodraeth leol.”⁴⁰

Safbwynt y Pwyllgor

81. Mae'r Pwyllgor yn pryderu y daeth costau sylweddol i Lywodraeth Cymru, sef £895,000 - £945,000, i'r amlwg yn ystod tystiolaeth ar gyfer cynhyrchu deunydd addysgol i'w gyflwyno mewn ysgolion. Nid yw chwaith yn glir i'r Pwyllgor faint o hyn sy'n ymwneud yn benodol ag estyn yr etholfraint i bobl 16 a 17 oed yn etholiadau'r Cynulliad neu am estyn yr etholfraint i wladolion tramor ar gyfer etholiadau llywodraeth leol. Mae'r Pwyllgor yn siomedig na chafodd y wybodaeth hon ei chynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o ystyried bod y costau amcangyfrifedig yn hysbys cyn cyflwyno'r Bil a'r Memorandwm Esboniadol.

82. Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod perygl y gallai llawer o sefydliadau, gan gynnwys Comisiwn y Cynulliad, Llywodraeth Cymru, y Comisiwn Etholiadol a'r 22 o awdurdodau lleol gwahanol ddyblygu ymdrechion a gwariant wrth geisio codi ymwybyddiaeth o'r newid i'r oedran pleidleisio ac etholiadau'r Cynulliad yn gyffredinol. Mae'r Pwyllgor yn credu y gallai hyn arwain at negeseuon cymysg ac na fyddai'n gost-effeithiol.

³⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 28, 21 Mawrth 2019

⁴⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 174, 4 Ebrill 2019

83. Mae'r Pwyllgor yn nodi y rhagwelir y bydd codi ymwybyddiaeth o ostwng yr oedran pleidleisio yn costio £866,200 (31.4 y cant o gyfanswm cost y Bil) i awdurdodau lleol. Mae'r Pwyllgor yn pryderu y gellid goramcangyfrif y costau hyn gan ei bod yn bosibl bod rhai awdurdodau lleol eisoes yn gwneud gwaith allgymorth. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod cyfle i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol drafod cydweithio ar godi ymwybyddiaeth â'r Comisiwn Etholiadol i greu arbedion cost a sicrhau gwerth am arian.

84. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru i sefydlu bwrdd allanol o gynghorwyr i helpu gyda gwaith codi ymwybyddiaeth a'r gwaith a wneir gan Fwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod yn rhaid defnyddio sianeli cydweithredol fel y rhain i gyflwyno un ymgyrch gost-effeithiol yn hytrach na nifer o ymgyrchoedd.

Casgliad 2. Mae'r Pwyllgor yn credu bod angen sicrhau bod gwaith i godi ymwybyddiaeth yn gost-effeithiol. Er enghraifft, gellid rhoi rôl allweddol i ysgolion, grwpiau ieuencid a sefydliadau eraill wrth ddylunio ymgyrchoedd allgymorth pleidleiswyr fel bod gostwng yr oedran pleidleisio'n dod yn ddathliad cenedlaethol.

Casgliad 3. O ystyried bod y costau amcangyfrifedig i Lywodraeth Cymru ar gyfer codi ymwybyddiaeth o estyn yr etholfraint i bobl 16 oed ar gael cyn cyflwyno'r Bil a'r Memorandwm Esboniadol, mae'r Pwyllgor yn siomedig na chafodd y wybodaeth hon ei chynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Biliau arfaethedig gan Gomisiwn y Cynulliad yn y dyfodol yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael i sicrhau bod y Pwyllgor Cyllid yn gallu craffu'n effeithiol ar yr holl gostau sy'n gysylltiedig â'r cynigion.

Argymhelliad 11. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Llywydd yn cynnwys costau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chodi ymwybyddiaeth o estyn yr etholfraint i bobl 16 oed yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig a gyhoeddir ar ôl trafodion Cyfnod 2.

Argymhelliad 12. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Llywydd, Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Etholiadol yn sicrhau bod cymdeithas sifil, megis ysgolion a sefydliadau ieuencid yn cael eu cynnwys ar Fwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru, Bwrdd Allanol Llywodraeth Cymru o gynghorwyr a byrddau cydweithredol eraill sy'n gweithio i hyrwyddo ymwybyddiaeth pleidleiswyr, er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cyfrannu at waith i ddylunio deunydd ymwybyddiaeth pleidleiswyr.

4. Ariannu a goruchwyllo'r Comisiwn Etholiadol

Y cefndir

85. Ar hyn o bryd, mae'r Comisiwn Etholiadol yn atebol i Senedd y DU, Pwyllgor y Llefarydd yn benodol, sy'n goruchwyllo gwaith y Comisiwn Etholiadol yn gyffredinol.

86. Mae'r Comisiwn Etholiadol hefyd yn derbyn ei gyllid gan Bwyllgor y Llefarydd yn hytrach nag yn uniongyrchol drwy Drysorlys EM.

87. Mae Adran 27 o'r Bil yn gosod dyletswydd ar y Cynulliad i ystyried y trefniadau ariannol a goruchwyllo ar gyfer gwaith y Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau datganoledig Cymru a refferenda datganoledig. Fodd bynnag, nid yw'r Bil yn cynnwys manylion ynghylch sut y dylai'r Cynulliad ystyried y trefniadau goruchwyllo hyn. Mae'r Memorandwm Esboniadol y canlynol:

“... ni ystyrir ei bod yn briodol pennu sut y dylid gwneud hyn. Yn hytrach, mae'r Bil yn pennu y caiff y Senedd wneud darpariaeth o fewn ei Rheolau Sefydlog ar sut y dylid cyflawni'r ddyletswydd.”

88. Ar 15 Chwefror 2019, ysgrifennodd y Llywydd at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, gan ddatgan y canlynol:

“Felly, mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar y Senedd i ystyried a ddylai'r Comisiwn Etholiadol gael ei gyllido gan y Cynulliad am ei waith mewn perthynas ag etholiadau datganoledig Cymru, ac a ddylai fod yn atebol i'r Cynulliad am y gwaith hwnnw.

Bwriad y ddarpariaeth hon yn bennaf yw rhoi arwydd o fwriad polisi (yng Nghyfnod 1 o'r Bil) i roi sylw i drefniadau cyllido ac atebolrwydd y Comisiwn Etholiadol trwy welliannau i'r Bil.

Os bydd y Cynulliad yn argymhell y dylid cefnogi cymryd cam o'r fath, rwy'n rhagweld y byddai gwelliannau yn cael eu cyflwyno yng Nghyfnod 2 i lunio trefniadau i'r Comisiwn Etholiadol gael ei gyllido gan y Cynulliad a bod yn atebol iddo.”

89. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn tybio y bydd “un o bwyllgorau'r Senedd” yn cynnal dau ymchwiliad, chwe awr yr un, mewn pum mlynedd. Y gost

amcangyfrifedig yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Cynulliad yw £19,600 a £9,800 ar gyfer y Comisiwn Etholiadol.

90. Nid yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys rhagor o amcangyfrifon ar effeithiau eraill newidiadau i drefniadau ariannu a goruchwyllo, a allai fod yn llawer mwy sylweddol.

Tystiolaeth gan dystion

91. Cytunodd y Prif Weithredwr⁴¹ a'r Comisiwn Etholiadol⁴² fod y costau yn y Bil yn amcangyfrifon rhesymol mewn perthynas â'u priod sefydliadau.

92. Dywedodd y Llywydd fod y trafodaethau â'r Comisiwn Etholiadol a Llywodraeth Cymru mewn perthynas â threfniadau goruchwyllo ac ariannol y Comisiwn Etholiadol wedi'u cynnal "braidd yn hwyr yn y dydd i gyrraedd y Mesur yma" ond cytunodd y dylai'r darpariaethau fod wedi'u cynnwys "o'r cychwyn".

93. Cadarnhaodd y Llywydd, wrth gyflwyno gwelliannau Cyfnod 2, "fe fydd yn rhaid i'r asesiad ariannol gael ei gyflwyno'n llawn".⁴³

94. Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi awgrymu y dylai fod yn atebol i "[B]wyllgor Llywydd" sydd i'w gadeirio gan y Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd, gan nodi hyn fel model tebyg i Bwyllgor y Llefarydd yn Senedd y DU.⁴⁴

95. Awgrymodd y Comisiynydd Etholiadol y byddai'r dull gweithredu hwn yn broses ddwy ffordd – nid adrodd yn unig, ond bod y pwyllgor yn pennu amcanion".⁴⁵

96. Dywedodd y Llywydd nad oedd wedi gwneud penderfyniad terfynol ar y mater hwn eto ac y byddai'n croesawu safbwynt y Pwyllgor ar yr hyn y mae'n ei ystyried "fyddai'n berthnasol" o gofio profiad y Pwyllgor o "waith goruchwyllo ar rai cyrff".⁴⁶

97. Dywedodd y Prif Weithredwr, pe bai'r trefniadau'n gweithio yn yr un modd â Phwyllgor y Llefarydd, nad oedd yn "rhagweld y bydd yna gostau ychwanegol na ellir eu cynnwys yng nghostau dydd-i-ddydd [Comisiwn y Cynulliad]". Fodd

⁴¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 76, 4 Ebrill 2019

⁴² Cofnod y Trafodion, paragraff 28, 27 Mawrth 2019

⁴³ Cofnod y Trafodion, paragraff 218, 4 Ebrill 2019

⁴⁴ ~~FIN(5)-09-19 – Papur 1 – Papur y Comisiwn Etholiadol ar y Bil Senedd ac Etholiadau~~

⁴⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 21, 27 Mawrth 2019

⁴⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 235, 4 Ebrill 2019

bynag, nododd ei bod yn anodd gwneud sylwadau “heb wybod beth yw’r cynnig”.⁴⁷

98. Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai Comisiwn y Cynulliad yn “darparu gwybodaeth ariannol i gyd-fyd ag unrhyw welliannau” ac os yw’r Pwyllgor am “graffu ar unrhyw beth pellach yng nghwrs y ddeddfwriaeth, yna gwnawn ni ein gorau i hwyluso hynny”.⁴⁸

99. Cytunodd y Cwnsler Cyffredinol y bydd angen gwerthuso costau a goblygiadau gwelliannau a gyflwynir a diweddarau’r asesiad effaith bryd hynny.⁴⁹

100. Mewn perthynas ag ariannu’r Comisiwn Etholiadol, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol y canlynol:

“...there have been discussions between officials, actually, and the Commission and the Treasury, with the objective of transferring the budget that is currently held within the Speaker’s Committee on the Electoral Commission fund into the Welsh block, which would then have the effect of devolving that funding to Wales. Those discussions are ongoing.”⁵⁰

101. Yn ystod tystiolaeth i’r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, dywedodd y Prif Weithredwr y canlynol:

“There are costs of funding the Electoral Commission’s activities and then there are costs relating to the oversight and scrutiny of the Electoral Commission’s activities and facilitating the oversight of the Electoral Commission’s work. I understand that there are discussions ongoing between the Welsh Government, the Electoral Commission and the Treasury with regard to the possibility of transferring money to the Welsh consolidated fund to pay for the former, to pay for the work itself, and I know you’ll have been advised by the Electoral Commission that they estimate those costs to be anywhere between £600,000 and £1.7 million in a year.”⁵¹

⁴⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 85, 4 Ebrill 2019

⁴⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 82, 4 Ebrill 2019

⁴⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 93, 21 Mawrth 2019

⁵⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 84, 21 Mawrth 2019

⁵¹ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, paragraff 322, 29 Ebrill 2019

102. Gofynnodd y Pwyllgor a oedd y Llywydd yn bwriadu ariannu'r Comisiwn Etholiadol drwy gyllideb Comisiwn y Cynulliad neu fel tâl uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru.

103. Dywedodd y Llywydd ei bod yn ystyried y mater ar hyn o bryd ond bod cyllid uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru “ddim yn bosib”.⁵² Ychwanegodd ei swyddog y canlynol:

“Does gennym ni ddim y gallu i ddeddfu i ganiatáu iddyn nhw dderbyn arian yn uniongyrchol o'r gronfa gyfunol. Felly, bydd yr arian yn gorfod dod drwy cyllid y Comisiwn, ac felly yn rhan o hynny.”⁵³

104. Wedi hynny, ysgrifennodd y Pwyllgor at y Llywydd ar 17 Ebrill 2019 i geisio rhagor o eglurhad ar y sylw a wnaed nad oedd gan y Cynulliad y “gallu i ddeddfu” i'r Comisiwn Etholiadol gael cyllid yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru, ac a oedd hyn yn cyfeirio at gymhwysedd deddfwriaethol neu ryw gyfyngiad arall.

105. Ymatebodd y Llywydd ar 7 Mai 2019 gan ddweud y canlynol:

“Mae'r mater dan sylw yn ymwneud â chymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

Nodir y darpariaethau sy'n ymwneud â Chronfa Gyfunol Cymru yn Rhan 5 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006). Mae adran 124 yn ymdrin â thaliadau allan o Gronfa Gyfunol Cymru, ac yn is-adran (3) pennir y personau perthnasol y caniateir talu symiau iddynt o Gronfa Gyfunol Cymru, sef:

“(a) the Welsh Ministers, the First Minister and the Counsel General,
(b) the Assembly Commission,
(c) the Wales Audit Office, and
(d) the Public Services Ombudsman for Wales.

... Nid oes gan y Cynulliad y cymhwysedd i ychwanegu cyrff na deiliaid swyddi at y rhestr honno, gan fod adran 124 o Ddeddf 2006 yn un o'r darpariaethau na ellir eu haddasu, o fewn cymhwysedd, yn rhinwedd paragraff 7 o Atodlen 7B i'r Ddeddf.”

106. Dywedodd y Llywydd ei bod wrthi'n trafod opsiynau ariannu ar gyfer cyllideb y Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau datganoledig yng

⁵² Cofnod y Trafodion, paragraff 221, 4 Ebrill 2019

⁵³ Cofnod y Trafodion, paragraff 223, 4 Ebrill 2019

Nghymru, gan gynnwys y materion cyfreithiol a chyfansoddiadol sy'n gysylltiedig â'r opsiynau hyn. Ychwanegodd y Llywydd y canlynol:

“Mae adran 124 yn caniatáu i daliadau eraill gael eu gwneud o Gronfa Gyfunol Cymru, os ydynt ar gyfer gwariant sy'n daladwy yn unol â deddfiad perthnasol. Mae deddfiad perthnasol yn cyfrif fel deddfiad sy'n darparu ar gyfer taliad o Gronfa Gyfunol Cymru. Felly, mewn egwyddor, gallai darpariaeth o'r fath gael ei chynnwys yn y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru), fel gwelliant. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn Etholiadol yn “awdurdod a gadwyd yn ôl” o dan Atodlen 7B o Ddeddf 2006 ac mae'r Cynulliad yn ddarostyngedig i nifer o gyfyngiadau o ran sut y gall effeithio ar awdurdodau a gadwyd yn ôl, oni bai bod Llywodraeth y DU yn cydsynio i hynny (paragraffau 8-10). Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi'i eithrio o rai o'r cyfyngiadau hynny. Serch hynny, byddai angen cydsyniad Llywodraeth y DU ar Ddeddf Cynulliad er mwyn addasu cyfansoddiad y Comisiwn Etholiadol, gan gynnwys addasiadau sy'n ymwneud â'i asedau a'i rwymedigaethau, a'i gyllid a'i dderbyniadau.”⁵⁴

Safbwynt y Pwyllgor

107. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod y costau a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol i “un o bwyllgorau'r Senedd” gynnal dau ymchwiliad, mewn pum mlynedd, yn ymddangos yn rhesymol o ran darparu adnoddau'r Comisiwn i gefnogi'r Pwyllgor.

108. Fodd bynnag, mae gan y Pwyllgor bryder bod y Llywydd wedi gwneud cyhoeddiadau sy'n tynnu sylw at y newidiadau arfaethedig yng Nghyfnod 2 i drefniadau goruchwylio ac ariannu'r Comisiwn Etholiadol, mor gynnar ar ôl cyflwyno'r Bil. Roedd y Pwyllgor yn credu y gallai fod oblygiadau cost sylweddol i'r newidiadau hyn. Mae'r dull gweithredu hwn yn lleihau gallu'r Pwyllgor i ystyried costau cyffredinol y ddeddfwriaeth arfaethedig, yn enwedig gan fod y cyfle i graffu ar y newidiadau hyn yn ariannol yn fwy cyfyngedig.

109. Nid yw chwaith yn glir i'r Pwyllgor pam mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi nad yw'n briodol i'r Bil bennu sut y bydd y trefniadau ariannol a goruchwylio yn cael eu cyflawni. Yn hytrach, bydd y rhain yn cael eu nodi yn y Rheolau Sefydlog. Eto mae [llythyr y Llywydd, dyddiedig 15 Chwefror 2019](#), yn nodi y gellir gwneud trefniadau i'r Comisiwn Etholiadol gael ei ariannu gan y Cynulliad a bod yn atebol iddo drwy welliannau yng Nghyfnod 2.

⁵⁴ [Llythyr gan y Llywydd, 7 Mai 2019](#)

110. Trafododd adroddiad y Pwyllgor ar yr amcangyfrifon ariannol sy'n mynd gyda deddfwriaeth Hydref 2017 bryderon mewn perthynas â'r cyfle llai i graffu ar oblygiadau ariannol y gwelliannau a wneir ar ôl Cyfnod 1. Gwnaed yr argymhelliad a ganlyn yn yr adroddiad:

“Argymhelliad 7: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Aelod sy'n Gyfrifol roi crynodeb i'r Pwyllgor Cyllid a'r pwyllgor craffu perthnasol o unrhyw newidiadau i Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar ôl Cyfnod 2, gan gynnwys y goblygiadau ariannol.”

111. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r awgrym y dylai'r Comisiwn Etholiadol fod yn atebol i “[B]wyllgor Llywydd”. Er y gallai hyn fod yn fodel tebyg i Bwyllgor y Llefarydd yn Senedd y DU, nid oedd yn glir yn y dystiolaeth a fydd y newidiadau i drefniadau ariannol y Comisiwn Etholiadol yng Nghymru yn cael eu hariannu o gyllideb Comisiwn y Cynulliad neu fel tâl uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru.

112. Felly, er bod y Pwyllgor yn cydnabod manteision Pwyllgor Llywydd, mae'r Pwyllgor yn pryderu bod risg y gallai'r dull gweithredu hwn arwain at drethdalwyr Cymru yn talu llawer mwy tuag at ariannu'r Comisiwn Etholiadol, os yw'n peidio â chael ei ariannu drwy Bwyllgor Llefarydd.

113. Ysgrifennodd y Llywydd at y Pwyllgor ar 7 Mai 2019, ac ni roddodd y llythyr eglurder ynghylch sut y byddai'r Comisiwn Etholiadol yn cael ei ariannu. Mae'r cymhlethdodau y manylir arnynt yn y llythyr hwn ynghylch yr opsiynau ariannu hyn yn golygu nad yw'r Pwyllgor yn glir o hyd sut y gall y Comisiwn Etholiadol fod yn atebol yng Nghymru.

114. Fel y maent wedi'u drafftio ar hyn o bryd, mae Rheolau Sefydlog 19 ac 20 y Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor Cyllid ystyried y defnydd o adnoddau, neu wariant o Gronfa Gyfunol Cymru. Felly, pe bai'r Comisiwn Etholiadol yn cael ei ariannu'n uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru, byddai'n dod dan gylch gwaith y Pwyllgor Cyllid ac mae'r Pwyllgor yn credu bod hyn yn briodol. Mae'n hanfodol bod un Pwyllgor yn gyfrifol am oruchwyliaeth strategol ar yr holl daliadau ar Gronfa Gyfunol Cymru. Fodd bynnag, nes y ceir eglurder, ni all y Pwyllgor ffurfio barn ynghylch a yw creu pwyllgor Llywydd ar gyfer goruchwyllo'r Comisiwn Etholiadol yn briodol.

115. Ar 13 Mehefin 2019, ysgrifennodd y Llywydd at y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn rhoi mwy o wybodaeth am y cyfeiriad polisi arfaethedig o ran ariannu'r Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau datganoledig yng Nghymru.

116. Nododd y llythyr opsiynau a ffefrir y Llywydd i'r Comisiwn Etholiadol gael ei ariannu'n uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru a bod yn atebol i Bwyllgor y Llywydd. Fodd bynnag, ni roddwyd gwybodaeth fanwl am y ffordd y byddai'r opsiynau hyn yn cael eu rhoi ar waith.

117. Yn dilyn hyn, ar 25 Mehefin 2019, ysgrifennodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit at y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol hefyd yn rhoi rhagor o wybodaeth am gynigion Llywodraeth Cymru ynghylch trefniadau ariannu ac atebolrwydd y Comisiwn Etholiadol.

118. Ar ôl cael y llythyr, nid oedd digon o amser i drafod y materion cyn y dyddiad cau i gyflwyno adroddiad, sef 28 Mehefin 2019. Felly, mae'r Pwyllgor wedi cyhoeddi'r adroddiad hwn ac ysgrifennu at y Llywydd yn gofyn am ragor o wybodaeth cyn dadl Cyfnod 1.

Casgliad 4. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai trefniadau ariannol a goruchwyllo'r Comisiwn Etholiadol fod wedi'u datblygu'n fwy cyn i'r Bil gael ei gyflwyno. Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod y Comisiwn wedi cyflwyno Bil gyda'r bwriad o ddiwygio darpariaethau yng Nghyfnod 2. Mae'r dull gweithredu hwn yn lleihau gallu'r Cynulliad i graffu ar egwyddorion cyffredinol y Bil a gwneud penderfyniad arnynt ac nid ystyrir mai dyma'r arfer gorau.

Casgliad 5. Gan nad yw trefniadau goruchwyllo ac ariannu'r Comisiwn Etholiadol yn anhysbys, ni all y Pwyllgor ffurfio safbwynt ar briodoldeb sefydlu "Pwyllgor Llywydd" i graffu ar y Comisiwn Etholiadol.

Argymhelliad 13. Mae'r Pwyllgor yn argymhell, mewn perthynas â newidiadau i drefniadau goruchwyllo ac ariannu'r Comisiwn Etholiadol cyn i Gyfnod 2 fynd rhagddo, y dylid darparu gwelliannau drafft a'u goblygiadau cost i roi cyfle i'r Pwyllgor Cyllid graffu arnynt yn llawn cyn ei bod yn ofynnol i Bwyllgor o'r Cynulliad Cyfan waredu gwelliannau.

5. Gweithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith

Y cefndir

119. Man cychwyn y prosiect i ddiwygio'r gyfraith etholiadol yw Rhaglen Diwygio'r Gyfraith Comisiwn y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr Rhif 11. Mae ei gwmpas, a bennwyd yn 2012, yn ymestyn i'r gyfraith, troseddau a heriau cyfreithiol o ran gweinyddu etholiadau. Ym mis Chwefror 2016, cyhoeddwyd adroddiad interim gan Gomisiwn y Gyfraith a diben yr argymhellion oedd symleiddio'r trefniadau gweinyddol mewn perthynas ag etholiadau a safoni'r trefniadau hynny ar draws y pedair rhan o'r DU.⁵⁵

120. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud y canlynol:

“Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad interim, bwriad Comisiwn y Gyfraith oedd llunio adroddiad terfynol a deddfwriaeth ddrafft i roi effaith i'w argymhellion terfynol. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru wedi ymateb yn ffurfiol i'r adroddiad hyd yn hyn. Nododd Llywodraeth y DU ddiwedd 2016 nad oedd digon o gapasiti seneddol ar gyfer Bil etholiadol i fwrw ymlaen â'r argymhellion. Nid yw'n glir a fydd Comisiwn y Gyfraith yn cyhoeddi argymhellion diwygiedig mewn adroddiad terfynol ar ei brosiect i ddiwygio'r gyfraith etholiadol.”

121. Gan nad yw adroddiad terfynol Comisiwn y Gyfraith wedi'i gyhoeddi, mae adran 36 o'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth. Nod hyn yw sicrhau y caiff etholiadau yng Nghymru eu gweinyddu mewn ffordd sy'n cydymffurfio ag unrhyw argymhellion y mae Comisiwn y Gyfraith yn eu gwneud yn y dyfodol.

122. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cyfeirio at asesiad effaith gan Gomisiwn y Gyfraith o'i 25 o argymhellion. Mae'r asesiad effaith yn nodi nad yw'r costau'n hysbys gan y byddai asesiadau'n cael eu gwneud ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth, felly nid amlinellir costau ar gyfer Llywodraeth Cymru.

Tystiolaeth gan dystion

123. Mewn perthynas â'r pwerau galluogi hyn, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol nad oedd yn teimlo ei bod yn briodol i'r pwerau hyn gael eu harfer gan

⁵⁵ Memorandwm Esboniadol

Weinidogion Cymru. Dywedodd mai'r opsiwn a ffefrir gan Lywodraeth Cymru yw ymdrin â'r rhain fel deddfwriaeth sylfaenol ac i'r Cynulliad graffu arnynt ar sail gweithdrefn gyflymach, a geir yn aml mewn perthynas â deddfwriaeth Comisiwn y Gyfraith".⁵⁶

124. Gofynnwyd i'r Llywydd pa sicrwydd y gallai ei roi, pe bai Gweinidogion Cymru yn cael pŵer galluogi i wneud is-ddeddfwriaeth o'r fath, y bydd digon o waith craffu ar oblygiadau ariannol o gofio nad yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn meintioli'r costau cysylltiedig.

125. Ymatebodd y Llywydd:

"...they are interim recommendations at this point and they could change, so that when they actually become final recommendations, there may well be costs outlined by the Law Commission at that point. But the costs, if Welsh Government want to use their subordinate legislation powers to introduce any of those changes, then they do so with the expected impact assessments and costings that would be associated with any subordinate legislation."⁵⁷

126. Dywedodd y Prif Weithredwr fod costau'r darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â gweithredu'r argymhellion "yn amlwg yn fychan iawn". Ychwanegodd:

"Os bydd y Bil yn cael ei basio fel y mae e, a bod y grymoedd yma yn cael eu gweithredu, yna mater i Weinidogion y Llywodraeth fydd hynny, ac mi fydd ymateb i unrhyw ddatblygiadau fel yna, unwaith eto, yn rhan o gostau creiddiol y Cynulliad. Mi fydd hi'n fater o fusnes fel arfer, dydd i ddydd, yn ymateb i gostau craffu ychwanegol gallai ddod yn y dyfodol."⁵⁸

Safbwynt y Pwyllgor

127. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod adroddiad interim Comisiwn y Gyfraith yn darparu fframwaith defnyddiol i wella'r ffordd mae etholiadau'n cael eu gweithredu a allai gyflawni rhai arbedion cost. Dywedodd Dr James wrth y pwyllgor y gall cyfraith gymhleth a swmpus gymryd amser i swyddogion

⁵⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 99, 21 Mawrth 2019

⁵⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 231, 4 Ebrill 2019

⁵⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 97, 4 Ebrill 2019

etholiadol a gwneud gwallau'n fwy tebygol.⁵⁹ Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn credu bod rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud newidiadau i gyfraith etholiadol drwy is-ddeddfwriaeth yn golygu y gallai gwelliannau gael eu gwneud heb waith craffu digonol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi nad yw Llywodraeth Cymru wedi mynegi awydd i Weinidogion Cymru gael y pŵer galluogi hwn yn y ddeddfwriaeth hon.

128. Mae'r Pwyllgor yn cytuno â safbwynt Llywodraeth Cymru y byddai mwy o waith craffu ariannol priodol ar y newidiadau hyn pe baent yn cael eu gweithredu drwy ddeddfwriaeth sylfaenol yn hytrach nag is-ddeddfwriaeth.

129. Oherwydd safbwynt Llywodraeth Cymru nad yw'n briodol i'r pwerau hyn gael eu harfer gan Weinidogion Cymru a diffyg manylion ariannol yn yr asesiad effaith, mae'r Pwyllgor o'r farn, fel y mae wedi'i drafftio ar hyn o bryd, y dylid dileu adran 36 o'r Bil. Fodd bynnag, gellid diwygio'r Bil i roi cyfle i gyflwyno rhai newidiadau bach i etholiadau Cynulliad Cymru, sy'n cyd-fynd ag etholiadau cyffredinol a lleol, a allai arbed amser i swyddogion etholiad.

130. Mae'r Pwyllgor yn pryderu nad yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi costau na thystiolaeth o effaith ariannol adran 36. Mae'r Pwyllgor wedi argymhell o'r blaen yn ei adroddiad ar yr amcangyfrifon ariannol sy'n mynd gyda deddfwriaeth, Hydref 2017:

“Argymhelliad 13: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i ddarparu darlun mor llawn â phosibl o gostau is-ddeddfwriaeth wrth gynig deddfwriaeth sylfaenol.”

Casgliad 6. Mae'n siomedig y cyflwynwyd Bil gan y Comisiwn sy'n cynnwys darpariaethau is-ddeddfwriaeth nad oes modd eu costio'n llawn a bod yn destun gwaith craffu, yn enwedig gan fod Pwyllgorau'r Cynulliad wedi beirniadu'r dull gweithredu hwn o'r blaen.

Casgliad 7. Mae'r Pwyllgor yn ailadrodd ei argymhelliad blaenorol y dylai darlun mor llawn â phosibl gael ei roi o gostau is-ddeddfwriaeth wrth gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol. Dyma'r hyn a ddisgwylir gan bob Bil a gyflwynir i'r Cynulliad gan Lywodraeth Cymru, Comisiwn y Cynulliad, un o bwyllgorau'r Cynulliad neu Aelod unigol.

⁵⁹ Toby S. James (2014) “Electoral Management in Britain” yn Pippa Norris, Richard Frank a Ferran Martinez i Coma (golygyddion) Advancing Election Integrity (Efrog Newydd: Gwasg Prifysgol Rhydychen)

Argymhelliad 14. Yn seiliedig ar sylwadau Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag adran 36, mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Llywydd yn ystyried diwygio'r Bil i adlewyrchu safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

6. Adolygiad ar ôl gweithredu

Y cefndir

131. Pennod 6 o Lawlyfr Deddfwriaeth ar Filiau'r Cynulliad Llywodraeth Cymru yn nodi y "dylai pennod olaf yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol nodi'r dull arfaethedig ar gyfer monitro, adolygu a gwerthuso'r polisi".

132. Nod adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar yr amcangyfrifon ariannol sy'n mynd gyda deddfwriaeth, Hydref 2017, oedd deall pa mor ddibynadwy yw'r wybodaeth ariannol a ddarperir gyda Bil. Nododd yr adroddiad ei ganfyddiadau mewn perthynas ag adolygu costau ar ôl gweithredu'r ddeddfwriaeth. Nododd bwysigrwydd gwaith craffu ar ôl deddfu wrth wella'r broses gostio gyffredinol a'r wybodaeth yn y cyfnod deddfwriaethol. Argymhellodd y Pwyllgor y canlynol:

"...bod Asesiadau Effaith Rheoleiddiol yn y dyfodol yn gosod proses glir ar gyfer adolygiad ôl-weithredol o'r amcangyfrifon ariannol, gan gynnwys pryd a beth fydd yn cael ei asesu."⁶⁰

133. Nid yw Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Bil hwn yn nodi gwybodaeth mewn perthynas â'r adolygiad ôl-weithredol o'r Bil, gan gynnwys unrhyw broses ar gyfer gwerthuso ei oblygiadau ariannol.

Tystiolaeth gan dystion

134. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol ei bod yn dda sicrhau bod gennym adolygiad o ddeddfwriaeth fel mater o drefn. Fodd bynnag, o ystyried natur a maint y costau yn y Bil, efallai nad yw mor frys ag y mae mewn darnau eraill o ddeddfwriaeth, ond mae'n sicr yn werth myfyrio arni.⁶¹

135. Dywedodd y Prif Weithredwr y canlynol:

"Rhan o'r agwedd rŷn ni wedi'i gymryd at y costau fel maen nhw wedi cael eu mynegi yn y memorandwm esboniadol yw hwyluso craffu ôl-ddeddfwriaethol, a gwneud y math yna o adolygiad. Mi fyddwn i'n croesawu ac yn disgwyl hynny. Yn amlwg, o safbwynt costau'r Comisiwn, mi fyddwn ni'n adrodd ar y rheini yn y ffordd arferol, ac mi fydd y rheini'n cael eu craffu gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Felly,

⁶⁰ Adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Ymchwiliad i'r amcangyfrifon ariannol sy'n mynd gyda deddfwriaeth, Hydref 2017

⁶¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 109, 21 Mawrth 2019

bydd modd inni edrych nôl ar y costau hynny yng nghwrs busnes, a hefyd, yn fwy hirdymor, wrth gwrs, edrych ar ganlyniadau'r ddeddfwriaeth ar ein trefniadau cyfansoddiadol ac etholiadol ni. Bydd hwnna'n rhywbeth i edrych arno fe yn fwy yn yr hirdymor. Ond yn sicr, mi wnawn ni yn y Comisiwn bopeth y gallwn ni i hwyluso'r math yna o ymarferiad.”⁶²

136. Dywedodd y Llywydd nad oedd ganddi “ddim gwrthwynebiad mewn egwyddor i graffu ôl-ddeddfwriaethol” ond ei bod o'r farn bod y costau yn y Bil hwn “dipyn yn llai” na deddfwriaeth arall a drafodir yn y Cynulliad. Dywedodd y dylid trafod a fyddai'n gymesur o ystyried “cynnwys y Mesur penodol yma”.⁶³

Safbwynt y Pwyllgor

137. Mae'r Pwyllgor yn nodi nad yw'r amcangyfrifon costau sydd wedi'u cynnwys yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol yn sylweddol o'u cymharu â Biliau eraill y mae'r Cynulliad wedi'u trafod. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn credu ei bod yn bwysig cynnal adolygiadau ôl-weithredol i sicrhau bod amcanion deddfwriaeth yn cael eu cyflawni yn unol â disgwyliadau. Er bod costau'r Bil hwn yn gymharol isel, mae'n hanfodol asesu a yw'r Bil wedi cyflawni ei nodau penodedig ac a yw gwerth am arian wedi'i gyflawni.

138. Yn unol ag argymhelliad blaenorol y Pwyllgor Cyllid ac arfer da, mae'r Aelodau'n credu y dylai'r Bil gynnwys rhyw fath o aseiad ôl-weithredol o effaith y Bil.

Argymhelliad 15. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y caiff darpariaeth ar gyfer adolygiad ôl-weithredol ei chynnwys yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig yn dilyn trafodion Cyfnod 2 er mwyn sicrhau bod y Bil wedi cyflawni ei amcanion polisi a bod gwerth am arian wedi'i gyflawni.

⁶² Cofnod y Trafodion, paragraff 94, 4 Ebrill 2019

⁶³ Cofnod y Trafodion, paragraff 238, 4 Ebrill 2019

Atodiad A: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar gael ar wefan y Pwyllgor.

Dyddiad	Enw a sefydliad
21 Mawrth 2019	<p>Jeremy Miles AC, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit</p> <p>Christopher Warner, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyfansoddiad a Chyfiawnder, Llywodraeth Cymru</p> <p>Angharad Thomas-Richards, Cyngorwr y Rhaglen Diwygio Etholiadol, Llywodraeth Cymru</p>
27 Mawrth 2019	<p>Elan Closs Stephens, Comisiynydd Etholiadol Cymru</p> <p>Kieran Rix, Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol y DU, y Comisiwn Etholiadol</p> <p>Rhydian Thomas, Pennaeth y Comisiwn Etholiadol, Cymru</p>
4 Ebrill 2019	<p>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad</p> <p>Nia Morgan, Cyfarwyddwr Cyllid, Cynulliad Cenedlaethol Cymru</p>
4 Ebrill 2019	<p>Elin Jones AC, Llywydd, Aelod sy'n gyfrifol am y Bil</p> <p>Anna Daniel, Pennaeth Trawsnewid Strategol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru</p> <p>Tom Jackson, Rheolwr Bil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru</p>